

Radiwm-223 deuglorid ar gyfer trin canser hormon-atglafychol y prostad gyda metastasisau'r esgyrn

28 Medi 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir radiwm-223 deuglorid (Xofigo) fel triniaeth posibl ar gyfer canser hormon-atglafychol y prostad mewn oedolion:

- y mae ganddynt fetastasisau'r esgyrn â symptomau ond nid oes ganddynt fetastasisau eraill ac
- y maent eisoes wedi cael docetaxel (cyffur gwrthganser) neu na allant gael docetaxel am nad yw'n addas iddynt.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ganser hormon-atglafychol y prostad a bod eich meddyg o'r farn mai radiwm-223 deuglorid yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu ei gael ar y GIG.

Dylai radiwm-223 deuglorid fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd radiwm-223 deuglorid nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Y cyflwr a'r driniaeth

Gelwir canser y prostad sydd wedi ymledu i rannau eraill o'r corff yn ganser metastatig y prostad. Gall canser ymledu i'r esgyrn, gan achosi symptomau fel poen. Gall hefyd ymledu i'r iau/afu, yr ysgyfaint neu'r ymennydd. Ystyr canser hormon-atglafychol y prostad yw canser nad yw'n ymateb mwyach i'r cyffuriau sy'n gwneud i'r corff gynhyrchu llai o destosteron, neu i adweithio iddo mewn ffordd wahanol.

Mae radiwm-223 deuglorid yn driniaeth a roddir drwy bigiad i mewn i wythien, sy'n cario ymbelydredd ysgafn i fetastasisau'r esgyrn, lle y mae'n lladd celloedd canser heb effeithio ar fêr esgyrn arferol.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Tackle Prostate Cancer](#), 0800 035 5302
- [Prostate Cancer UK](#), 0800 074 8383
- [PCaSO Sefydliad Cymorth Canser y Brostad](#), 0800 035 5302
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#) (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2142-3